**GWNEIR GORCHMYNION CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL YN SAESNEG YN UNIG. CYFIEITHIAD I'R GYMRAEG ER GWYBODAETH YW HWN AC NID OES IDDO RYM CYFREITHIOL.**

**LCOS ARE MADE IN ENGLISH ONLY. THIS IS A TRANSLATION INTO WELSH FOR INFORMATION AND IT HAS NO LEGAL EFFECT.**

*Gorchymyn Arfaethedig ar gyfer craffu cyn deddfu.*

---

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L   D R A F F T

---

# 2008 Rhif

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

# DATGANOLI, CYMRU

# Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig) 2008

*Gwnaed - - - -* *[ ]*

*Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1*

Yn Llys Palas Buckingham, y **** dydd o *******

Yn bresennol,

Ei Hardderchocaf Fawrhydi'r Frenhines yn y Cyfrin Gyngor

Yn unol ag adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**a**), gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a dau Dŷ'r Senedd a chymeradwywyd ef drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chan ddau Dŷ'r Senedd.

Gan hynny, mae'n bleser gan Ei Mawrhydi, yn unol ag adran 95(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn ôl cyngor a chyda chyngor Ei Chyfrin Gyngor, orchymyn fel a ganlyn:-

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig) 2008 a daw i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir.

### Diwygiadau i Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

**2.**— (1) Diwygier Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn unol â'r erthygl hon.

---

(**a**) 2006 p.32.

(2) Ym maes 1 (amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygu gwledig), mewnosoder—

“*Mater 1.1*

Y diwydiant cig coch, o ran—

(a) cynyddu effeithlonrwydd neu gynhyrchiant yn y diwydiant;

(b) gwella marchnata yn y diwydiant;

(c) gwella neu ddatblygu gwasanaethau y mae’r diwydiant yn eu darparu i’r gymuned neu y gallai eu darparu iddi;

(d) gwella’r ffyrdd y mae’r diwydiant yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy drwyddynt.

*Dehongli’r maes hwn*

Yn y maes hwn ystyr “y diwydiant cig coch” yw pob gweithgaredd sy’n rhan o—

(i) bridio, cadw, prosesu, marchnata a dosbarthu gwartheg, defaid a moch (yn fyw neu’n farw), a

(ii) cynhyrchu, prosesu, marchnata, gweithgynhyrchu a dosbarthu cynhyrchion sy’n dod o’r anifeiliaid hynny i unrhyw raddau helaeth (ac eithrio llaeth a chynhyrchion llaeth, gwlân cnu a chrwyn).

At ddibenion y diffiniad hwn—

ystyr “gwartheg” yw anifeiliaid buchol, gan gynnwys bison a byfflo;

ystyr “moch” yw anifeiliaid o deulu’r moch, gan gynnwys baeddod gwyllt a moch fferal eraill.”

*Enw*

Clerc y Cyfrin Gyngor

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"). Mae'r Gorchymyn yn estyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud cyfreithiau a elwir yn Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y cyfeirir atynt yn Neddf 2006 fel "Assembly Measures"). Mae'r cymhwysedd deddfwriaethol a roddir gan y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau cyffredinol ar arfer y cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw, sy'n gymwys yn rhinwedd adran 94 o Ddeddf 2006 ac Atodlen 5 iddi.

Mae erthygl 2(2) yn mewnosod mater 1.1 a darpariaethau dehongli ym maes 1 (amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygu gwledig) o Ran 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Mae'r mater newydd yn estyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gwmpasu'r diwydiant cig coch, o ran—

- cynyddu effeithlonrwydd neu gynhyrchiant yn y diwydiant cig coch;
- gwella marchnata yn y diwydiant cig coch;
- gwella neu ddatblygu gwasanaethau y mae'r diwydiant yn eu darparu i'r gymuned neu y gallai eu darparu iddi;
- gwella'r ffyrdd y mae'r diwydiant yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy drwyddynt.

Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn ar gyfer y Gorchymyn hwn, gan na ragwelir y bydd yn effeithio o gwbl ar y sector breifat na'r sector wirfoddol.